Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Senedd Cymru
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

21 Medi 2021

Annwyl Jenny

Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol: cytundebau y DU/Estonia, y DU/Latfia, y DU/Gwlad Belg a'r DU/yr Eidal

Byddwch yn gwybod mai y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 13 Medi 2021 gwnaethom ystyried pedwar cytundeb rhyngwladol rhwng y DU ac aelod-wladwriaethau unigol yr UE (Y DU/Estonia, y DU/Latfia, y DU/Gwlad Belg ac y DU/Yr Eidal) ar ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol.

Bydd y cytundebau hyn yn darparu sylfaen gyfreithiol ar gyfer diogelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyfnewidir rhwng y DU ac Estonia, y DU a Latfia, y DU a Gwlad Belg a'r DU a'r Eidal, a allai gynnwys pynciau fel amddiffyn, gorfodi'r gyfraith, gwrthderfysgaeth a diogelwch.

Yn ystod ein hystyriaeth gwnaethom gytuno i dynnu sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y cytundebau, mewn perthynas â'u goblygiadau, os o gwbl, i asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd